



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 226 (Cy.44)

2011 No. 226 (W.44)

**CLEFYDAU GWENYN,
CYMRU**

**BEE DISEASES,
WALES**

Gorchymyn Rheoli Clefydau a
Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio)
2011

The Bee Diseases and Pests
Control (Wales) (Amendment)
Order 2011

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn 2006 (O.S. 2006/1710) (Cy.172) ("Gorchymyn 2006"). Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi yng Nghymru Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010 sy'n gosod rhestrau o drydydd gwledydd, tiriogaethau neu rannau ohonynt sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd anifeiliaid penodol a chig ffres a'r gofynion o ran tystysgrifau milfeddygol (OJ Rhif L 73, 20.3.2010, t.1, fel y'i darllenir ynghyd â'r Corrigenda a gyhoeddwyd yn OJ Rhif L 146, 11.6.2010, t.1).

This Order amends the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1710) (W. 172) ("the 2006 Order"). It makes provision for the enforcement in Wales of Article 13 of Commission Regulation (EU) No 206/2010 laying down lists of third countries, territories or parts thereof authorised for the introduction into the European Union of certain animals and fresh meat and the veterinary certification requirements (OJ No L 73, 20.3.2010, p.1, as read with the Corrigenda published in OJ No L 146, 11.6.2010, p.1).

Mae Erthygl 13 o'r Rheoliad hwnnw yn gosod amodau sy'n gymwys yn sgil cyflwyno rhywogaethau penodol o famwenyn a chacwn (*Apis mellifera* a *Bombus* spp.) o drydydd gwledydd i Gymru.

Article 13 of that Regulation imposes conditions that apply following the introduction of certain species of queen bees and bumble bees (*Apis mellifera* and *Bombus* spp.) from third countries into Wales.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio erthygl 12(1) o Orchymyn 2006 fel bod ei darpariaethau'n gymwys hefyd mewn achosion pan wyddys neu pan amheuir bod clefyd hysbysadwy yn bresennol.

This Order also amends article 12(1) of the 2006 Order so that its provisions also apply in cases where notifiable disease is known or suspected.

Mae torri Gorchymyn 2006, fel y'i diwygir gan y Gorchymyn hwn, yn dramgwydd o dan adran 1(7) o Ddeddf Gwenyn 1980 (p. 12).

Breach of the 2006 Order, as amended by this Order, is an offence under section 1(7) of the Bees Act 1980 (c. 12).

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

A regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

2011 Rhif 226 (Cy.44)

**CLEFYDAU GWENYN,
CYMRU**

**Gorchymyn Rheoli Clefydau a
Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio)
2011**

<i>Gwnaed</i>	<i>1 Chwefror 2011</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>7 Chwefror 2011</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>28 Chwefror 2011</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 o Ddeddf Gwenyn 1980(1).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2011. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 28 Chwefror 2011.

Diwygiadau

2.–(1) Mae Gorchymyn Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 11 rhodder–

(1) 1980 p.12. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 1, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) O.S. 2006/1710 (Cy.172).

2011 No. 226 (W.44)

**BEE DISEASES,
WALES**

**The Bee Diseases and Pests
Control (Wales) (Amendment)
Order 2011**

<i>Made</i>	<i>1 February 2011</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>7 February 2011</i>
<i>Coming into force</i>	<i>28 February 2011</i>

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 1 of the Bees Act 1980(1).

Title, application and commencement

1. The title of this Order is the Bee Diseases and Pests Control (Wales) (Amendment) Order 2011. It applies in relation to Wales and comes into force on 28 February 2011.

Amendments

2.–(1) The Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006(2) is amended as follows.

(2) For article 11, substitute–

(1) 1980 c.12. The functions of the Secretary of State for Wales under section 1 were, in so far as exercisable in relation to Wales transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were, in so far as exercisable in relation to Wales transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044). Functions conferred on the National Assembly for Wales now vest in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

(2) S.I. 2006/1710 (W.172).

"Gwenyn a fewnforir

11.–(1) Pan fo llwythi o famwenyn a grybwyllir yn Erthygl 7(3)(a) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010(1) yn cyrraedd y gyrchfan derfynol ddynodedig o drydedd wlad neu diriogaeth a grybwyllir yn Erthygl 7(1) o'r Rheoliad hwnnw, rhaid i'r traddodai–

- (a) eu trosglwyddo i gewyll newydd yn unol ag Erthygl 13(1) o'r Rheoliad hwnnw; a
- (b) anfon y cewyll, y gwenyn sy'n gweini ar y mamwenyn a'r deunyddiau eraill a ddaeth gyda'r mamwenyn hynny o'r drydedd wlad y tarddodd y llwythi ohoni i labordy yn unol ag Erthygl 13(2) o'r Rheoliad hwnnw.

(2) Pan fo llwythi o gacwn a grybwyllir yn Erthygl 7(3)(b) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010 yn cael eu cyflwyno i Gymru o drydedd wlad neu diriogaeth a grybwyllir yn Erthygl 7(1) o'r Rheoliad hwnnw, rhaid i'r perchennog neu'r person sydd â gofal dros y cacwn hynny ddfifa'r cynhwysydd a'r deunyddiau a ddaeth gyda hwy o'r drydedd wlad y tarddodd y llwythi ohoni yn unol â thrydydd paragraff Erthygl 13(3) o'r Rheoliad hwnnw.

(3) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 13(1) a (2) o'r Rheoliad hwnnw.

(4) At ddibenion yr erthygl hon–

- (a) ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010" ("*Commission Regulation (EU) No 206/2010*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010 sy'n gosod rhestrau o drydydd gwledydd, tiriogaethau neu rannau ohonynt sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd anifeiliaid penodol a chig ffres a'r gofynion o ran tystysgrifau milfeddygol;
- (b) ystyr "y traddodai" ("*the consignee*") yw'r traddodai a nodir ar y dystysgrif filfeddygol sy'n mynd gyda'r gwenyn yn unol ag Erthygl 7(4)(a) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010; ac
- (c) mae i "cyrchfan derfynol ddynodedig" yr un ystyr yn yr erthygl hon ag ystyr "*designated place of final destination*" yn Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010."

(3) Yn erthygl 12(1), ar ôl "pla hysbysadwy", mewnosoder "neu glefyd hysbysadwy".

"Imported bees

11.–(1) Where consignments of queen bees mentioned in Article 7(3)(a) of Commission Regulation (EU) No 206/2010(1) arrive at the designated place of final destination from a third country or territory mentioned in Article 7(1) of that Regulation, the consignee must–

- (a) transfer them to new cages in accordance with Article 13(1) of that Regulation; and
- (b) send the cages, attendants and other material that accompanied those queen bees from the third country of origin to a laboratory in accordance with Article 13(2) of that Regulation.

(2) Where consignments of bumble bees mentioned in Article 7(3)(b) of Commission Regulation (EU) No 206/2010 are introduced into Wales from a third country or territory mentioned in Article 7(1) of that Regulation, the owner or person in charge of those bumble bees must destroy the container and material that accompanied them from the third country of origin in accordance with the third paragraph of Article 13(3) of that Regulation.

(3) The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of Article 13(1) and (2) of that Regulation.

(4) For the purposes of this article–

- (a) "Commission Regulation (EU) No 206/2010" ("*Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010*") means Commission Regulation (EU) No 206/2010 laying down lists of third countries, territories or parts thereof authorised for the introduction into the European Union of certain animals and fresh meat and the veterinary certification requirements;
- (b) "the consignee" ("*y traddodai*") means the consignee as indicated on the veterinary certificate accompanying the bees in accordance with Article 7(4)(a) of Commission Regulation (EU) No 206/2010; and
- (c) "designated place of final destination" ("*cyrchfan derfynol ddynodedig*") has the same meaning in this article as it has in Article 13 of Commission Regulation (EU) No 206/2010."

(3) In article 12(1), after "notifiable pest", insert "or notifiable disease".

(1) OJ Rhif L 73, 20.3.2010, t.1 fel y'i cywirwyd yn OJ Rhif L 146, 11.6.2010, t.1 a'i ddiwygio gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 810/810 OJ Rhif L 243, 16.9.2010, t.16.

(1) OJ No L 73, 20.3.2010, p.1 as corrected in OJ No L 146, 11.6.2010, p.1 and amended by Commission Regulation (EU) No 810/810 OJ No L 243, 16.9.2010, p.16

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
Weinidogion Cymru

1 Chwefror 2011

1 February 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W829/02/11

ON

ISBN 978-0-348-10318-2



9 780348 103182